# Cynllun Gweithredu Diwygiedig

# y Rhaglen Endosgopi Genedlaethol

# Hydref 2020

# CYNLLUN GWEITHREDU'R RHAGLEN ENDOSGOPI GENEDLAETHOL 2019-2023

Hydref 2020

## Cyflwyniad

Er mwyn cydnabod y pwysau sy'n wynebu gwasanaethau endosgopi yng Nghymru, ym mis Medi 2018 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynllun wedi'i gyfarwyddo yn genedlaethol i wella gwasanaethau endosgopi. O dan gadeiryddiaeth swyddogion Llywodraeth Cymru, mae Bwrdd y Rhaglen Endosgopi Genedlaethol yn cynnwys uwch arweinwyr byrddau iechyd sy'n cynrychioli pob un o'r Byrddau Iechyd a grwpiau cymheiriaid perthnasol yng Nghymru.

Nod y rhaglen yw sicrhau cydbwysedd rhwng galw a chapasiti, galluogi optimeiddio rhaglen sgrinio canser y coluddyn, sicrhau achrediad JAG (Grŵp Cynghori ar y cyd ar Endosgopi Gastroberfeddol) ar gyfer unedau a sicrhau bod modd cyflwyno'r llwybr canser sengl.

Mae pedwar is-grŵp ffrydiau gwaith yn sylfaen i'r Bwrdd, ac mae gan bob un gynllun gwaith y cytunwyd arno i sicrhau bod modd cyflawni nod y rhaglen.

**Galw a Chapasiti**

Y nod yw sicrhau bod gan fyrddau iechyd gynlluniau galw a chapasiti sydd wedi'u hymgorffori, sy'n gytbwys ac yn atebol trwy ddull safonedig.

**Llwybrau Clinigol**

Y nod yw datblygu trosolwg cenedlaethol o lwybrau clinigol, safoni llwybrau seiliedig ar dystiolaeth, ac i optimeiddio a sicrhau tegwch.

**Hyfforddi a Datblygu'r Gweithlu**

Y nod yw cefnogi dadansoddiad o'r gweithlu lleol, cynllunio swyddi, recriwtio a chadw, a datblygu cyfleoedd hyfforddi a datblygu cenedlaethol.

**Cyfleusterau a Seilwaith**

Y nod yw datblygu trosolwg o'r ystad ffisegol, sicrhau achrediad Grŵp Cynghori ar y Cyd o'r unedau, gwella seilwaith technoleg gwybodaeth i alluogi gwasanaeth endosgopi o'r radd flaenaf.

**Y Cynllun Gweithredu**

Cyhoeddwyd cynllun gweithredu ym mis Hydref 2019 er mwyn cynorthwyo'r dull gweithredu cenedlaethol hwn, ac er mwyn ymateb i argymhellion y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ym mis Ebrill 2019. Mae'r cynllun gweithredu yn cyflwyno cynllun gwella graddol i helpu byrddau iechyd i ddatblygu gwasanaethau endosgopi cynaliadwy.

Mae cynnydd tuag at gyflawni camau gweithredu wedi'i wneud, ond bydd angen i amserlenni fod yn fwy hyblyg oherwydd pandemig Covid-19. Mae'r cynllun gweithredu diwygiedig hwn yn nodi'r camau gweithredu gwreiddiol a gynlluniwyd ar gyfer cyfnod cychwynnol, cyfnod sefydlogi a chyfnod cynaliadwy'r rhaglen, cyflawniadau hyd yn hyn a therfynau amser diwygiedig ar gyfer cyflawni'r camau gweithredu sy'n weddill ynghyd â'r camau ychwanegol sydd eu hangen i gynorthwyo adferiad Byrddau Iechyd ar ôl y pandemig.

| Argymhellion | Cyfnod Cychwynnol (Erbyn 31-12-19) | Diweddariad Medi 2020 | Cyfnod Sefydlogi (Erbyn 31-03-21) | Diweddariad Medi 2020 | Cyfnod Cynaliadwy (Erbyn 31-03-23) | Diweddariad Medi 2020 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cerrig milltir lefel uchel** | Y rhaglen a’r broses lywodraethu wedi’u sefydlu. | Cwblhawyd | Erbyn mis Ebrill 2020, y byrddau iechyd i gytuno ar gynlluniau lleol i sicrhau mwy o weithgarwch, gwell seilwaith, recriwtio a hyfforddiant. | Cynlluniau wedi'u datblygu ac yn cael eu diwygio oherwydd y pandemig Covid-19 | Mae pob uned wedi'i hachredu'n llawn gan JAG. | Dim newid |
| | Ffrydiau gwaith ar waith. | Cwblhawyd | O leiaf 50% o unedau wedi'u hachredu'n llawn gan JAG. | Oedi tan fis Mawrth 2022 | Achrediad JAG wedi'i gynnal. | Dim newid |
| | Cynllun gweithredu wedi'i gyhoeddi. | Cwblhawyd | Tramgwyddau endosgopi arferol, brys a gwyliadwriaeth wedi'u sefydlogi ac yn gostwng ym mhob uned. | Roedd y gwaith modelu galw a chapasiti yn dangos gwelliant cyn y pandemig - gwaith modelu yn parhau | Tramgwyddau endosgopi arferol, brys a gwyliadwriaeth yn cael eu dileu. | Dim newid |
| | Adnoddau wedi'u dyrannu. | Cwblhawyd | Darpariaeth capasiti digonol i optimeiddio ystod oedran y rhaglen sgrinio coluddion. | Cynlluniau'n cael eu datblygu ond wedi'u gohirio oherwydd y pandemig. | Darpariaeth capasiti digonol i optimeiddio trothwy prawf y rhaglen sgrinio coluddion. | Dim newid |
| | Ymgysylltodd Byrddau Iechyd drwy'r Bwrdd ac IMTPs. | Cwblhawyd ac yn parhau | | | | |
| **Adfer ar ôl Covid** | Disgrifio cynlluniau adfer cenedlaethol tymor byr, tymor canolig a hirdymor.<br>Sicrhau cyllid ar gyfer cynllun adfer cenedlaethol.<br>Datblygu manyleb gwasanaeth ar gyfer capasiti ychwanegol. | | Datblygu cynllun gweithredu ar gyfer model newydd.<br>Ymgynghori â rhanddeiliaid perthnasol.<br>Y Rhaglen Endosgopi Genedlaethol i drosglwyddo i'r rhwydwaith.<br>Capasiti rhanbarthol ychwanegol wedi'i ddatblygu yn cynnwys unedau newydd. | | Cyflwyno cynllun adfer cenedlaethol a sicrhau bod nodau'r rhaglen yn cael eu cyflawni ar gyfer unedau newydd a phresennol. | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Darparu'r rhaglen** | | | | | | |
| **Gwelliant mewn gwasanaethau endosgopi yn cael ei sbarduno'n gyflymach a chyda mwy o berchnogaeth gan y GIG.** | Cynnal gweithdy cwmpasu rhaglenni. | Cwblhawyd | Y Bwrdd i ddarparu cyfarwyddyd cenedlaethol i arweinwyr lleol. | Yn parhau – dim newid i'r dyddiad cau | Pennu model arweinyddiaeth yn y dyfodol a'i weithredu. | Dim newid |
| | Sefydlu tîm y rhaglen. | Cwblhawyd | Cwmpas, cynnydd a bwlch galw/capasiti i'w adolygu. | Yn parhau – dim newid i'r dyddiad cau | Tîm y rhaglen i bontio i dîm cymorth rhwydwaith. | Dim newid |
| | Sefydlu Bwrdd Arweinyddiaeth Cenedlaethol. | Cwblhawyd | Ffrydiau gwaith i ddarparu allbynnau a buddion cynaliadwy. | Yn parhau – dim newid i'r dyddiad cau | Byrddau Iechyd i ymgorffori allbynnau. | Dim newid |
| | Cytuno ar y Cylch Gorchwyl. | Cwblhawyd | Tîm y rhaglen i gefnogi Byrddau Iechyd i ymgorffori allbynnau. | Gohiriwyd tan fis Mawrth 2022 | Dyraniad blynyddol i'w ddefnyddio i gefnogi'r rhaglen a rhoi cyfrif amdani. | Dim newid |
| | Sefydlu ffrydiau gwaith a chynlluniau. | Cwblhawyd | Dyraniad blynyddol i'w ddefnyddio i gefnogi'r rhaglen a rhoi cyfrif amdani. | Yn parhau | Adroddiad diwedd rhaglen i'w gyhoeddi yn erbyn argymhellion gwreiddiol a metrigau'r rhaglen. | Dim newid |
| | Penodi arweinwyr clinigol. | Cwblhawyd | Metrigau i gael eu monitro a chymryd camau cyfarwyddo angenrheidiol. | Wrthi'n cael eu datblygu | | |
| | Dyrannu adnoddau i'r rhaglen. | Cwblhawyd | Ystyried cyfeiriad y rhaglen yn y dyfodol. | Yn parhau – dim newid i'r dyddiad cau | | |
| | Datblygu'r cynllun gweithredu. | Cwblhawyd | | | | |
| | Datblygu metrigau'r rhaglen. | Wrthi'n cael eu datblygu | | | | |
| **Adfer ar ôl Covid** | Datblygu trefniadau celloedd cynllunio a llywodraethu y Rhaglen Endosgopi | | Rhoi'r cynllun adfer cenedlaethol ar waith. | | Datblygu'r achos dros newid ac ystyried opsiynau ar gyfer model gwasanaeth | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Genedlaethol<br>Mapio cynlluniau lleol ar gyfer adferiad.<br>Cytuno ar gynllun adfer cenedlaethol. | | | | hirdymor. | |
| **Ffrwd waith 1 Cynllunio Galw a Chapasiti** | | | | | | |
| **Er mwyn pennu'r bwlch galw a chapasiti, mae angen i Fyrddau Iechyd gael gwell dealltwriaeth o'u hamcanestyniadau o gapasiti, cynhyrchiant a galw cyfredol, i gefnogi gwell cynllunio ar gyfer y gweithlu a'r gwasanaeth.**<br><br>**Byrddau Iechyd i ddatblygu cynllun gweithredu i'w gymeradwyo yn y byrddau gweithredol perthnasol ynghylch sut i fynd i'r afael â'r bwlch capasiti, gyda chyfeiriad penodol ym mhob IMTP.** | Datblygu set ddata ofynnol a diffiniadau y cytunwyd arnynt. | Cwblhawyd | Mireinio ac adrodd yn rheolaidd ar alw'r Bwrdd Iechyd a chapasiti gwell yn erbyn y llinell sylfaen. | Yn parhau – dim newid i'r dyddiad cau | Mireinio ac adrodd yn rheolaidd ar alw'r Bwrdd Iechyd a chapasiti gwell yn erbyn y llinell sylfaen. | Yn parhau – dim newid i'r dyddiad cau |
| | Cwmpas a chynllunio allbynnau'r ffrwd waith. | Cwblhawyd | Camau uniongyrchol i fynd i'r afael â'r cydbwysedd rhwng galw a chapasiti. | Yn parhau – dim newid i'r dyddiad cau | Camau uniongyrchol i fynd i'r afael â'r cydbwysedd rhwng galw a chapasiti | Yn parhau – dim newid i'r dyddiad cau |
| | Cynnal, mireinio a chytuno ar linell sylfaen galw a chapasiti'r Bwrdd Iechyd. | Cwblhawyd | Darparu allbynnau ffrydiau gwaith i fyrddau iechyd er mwyn mynd i'r afael â'r bwlch capasiti. | Gohiriwyd tan fis Mawrth 2022 | Mae Byrddau Iechyd yn mabwysiadu allbynnau ffrydiau gwaith yn llawn i fynd i'r afael â'r bwlch capasiti. | Yn parhau – dim newid i'r dyddiad cau |
| | Datblygu a gweithredu dull cyffredin o fodelu galw a chapasiti lleol. | Cwblhawyd | Datblygu, adolygu a gweithredu cynlluniau gweithredu blynyddol Byrddau Iechyd; cysylltiedig ag IMTPs. | Yn parhau – dim newid i'r dyddiad cau | Datblygu, adolygu a gweithredu cynlluniau gweithredu blynyddol Byrddau Iechyd; cysylltiedig ag IMTPs. | Yn parhau – dim newid i'r dyddiad cau |
| | Datblygu a gweithredu dull safonedig o wella'r defnydd o adnoddau. Datblygu pecynnau adnoddau | Cwblhawyd | Byrddau Iechyd yn gweithredu mesurau cynhyrchiant ar lefel uned. | Yn parhau - gohiriwyd tan fis Mawrth 2022 | Byrddau Iechyd yn gweithredu mesurau cynhyrchiant ar lefel uned. | Yn parhau – dim newid i'r dyddiad cau |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Byrddau Iechyd i barhau i weithio tuag at gyflawni achrediad JAG.** | rheoli a pherfformiad | | | | | |
| | Cytuno ar ddull cyffredin o reoli rhestrau gwyliadwriaeth. | Cwblhawyd | Byrddau Iechyd yn lleihau ôl-groniadau gwyliadwriaeth. | Yn parhau – dim newid i'r dyddiad cau | Rhestrau Byrddau Iechyd yn cael eu cadw mewn cydbwysedd â'i gilydd | Yn parhau – dim newid i'r dyddiad cau |
| | Datblygu strwythurau adrodd gweithredol a strategol | Yn parhau | | | | |
| **Adfer ar ôl Covid** | Addasu adnodd cynllunio cenedlaethol i ystyried Covid.<br>Disgrifio ôl-groniad, galw a chapasiti presennol. | | Modelu galw a chapasiti ar gyfer safleoedd newydd a phresennol. | | Modelu galw a chapasiti ar gyfer model newydd - gweithgarwch 5 mlynedd. | |
| **Ffrwd waith 2: Llwybrau Clinigol** | | | | | | |
| **Byrddau Iechyd i gytuno ar lwybr atgyfeirio safonedig ar gyfer atgyfeiriadau endosgopi.** | Mapio llwybrau atgyfeirio cyfredol. | Cwblhawyd | Cytuno ar lwybrau sydd wedi'u hoptimeiddio'n genedlaethol ar gyfer atgyfeiriadau arferol, brys ac argyfwng, ar gyfer canolfannau sy'n bodoli eisoes ac unrhyw ganolfannau newydd. | Yn parhau – dim newid i'r dyddiad cau | Cwblhau'r gwaith o weithredu llwybrau wedi'u hoptimeiddio. | Yn parhau – dim newid i'r dyddiad cau |
| | Mapio llwybrau cyfredol ar gyfer atgyfeiriadau brys, arferol ac argyfwng. | Cwblhawyd | Gweithredu llwybrau sydd wedi'u hoptimeiddio'n genedlaethol. | Yn parhau - dyddiad cau wedi'i ohirio tan fis Mawrth 2022 | Cytuno a gweithredu dull cyffredin ar gyfer y Prawf Imiwnocemegol Ysgarthol (FIT) symptomatig. | Yn parhau – dim newid i'r dyddiad cau |
| | Datblygu cynllun peilot gwell o'r Prawf Imiwnocemegol Ysgarthol ar gyfer y gwasanaeth symptomatig. | Cwblhawyd | Gweithredu prosiect peilot i ddatblygu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer Prawf Imiwnocemegol Ysgarthol symptomatig. | Yn parhau – dim newid i'r dyddiad cau | Rhoi modelau gwasanaeth gwahanol ar waith ar gyfer gwasanaethau endosgopi mwy arbenigol. | Yn parhau – dim newid i'r dyddiad cau |
| | Gweithredu canllawiau gwyliadwriaeth | Cwblhawyd | Sicrhau bod y gwaith o gyflwyno DG30 ym mhob Bwrdd Iechyd yn mynd | Yn parhau – dim newid i'r dyddiad cau | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | newydd Cymdeithas Gastroenteroleg Prydain. | | rhagddo'n dda | | | |
| | | | Cwmpasu darpariaeth gwasanaethau arbenigol yn ymwneud ag endosgopi gastroberfeddol yng Nghymru a disgrifio'r heriau. | Yn parhau – dim newid i'r dyddiad cau | | |
| | | | Asesu effaith canllawiau gwyliadwriaeth newydd Cymdeithas Gastroenteroleg Prydain. | Yn parhau – dim newid i'r dyddiad cau | | |
| **Adfer ar ôl Covid** | Datblygu canllawiau cenedlaethol ar gyfer adfer ar ôl Covid.<br>Datblygu canllawiau ar gyfer brysbennu a rheoli achosion brys, arferol ac argyfwng.<br>Datblygu model clinigol posibl ar gyfer unedau newydd. | | Datblygu llwybrau atgyfeirio i unedau newydd a llwybrau dilynol i Fyrddau Iechyd. | | Datblygu llwybrau ar gyfer gwasanaethau arbenigol.<br>Ystyried llwybr atgyfeirio uniongyrchol posibl o ofal sylfaenol. | |
| **Ffrwd waith 3: Hyfforddi a Datblygu'r Gweithle** | | | | | | |
| **Byrddau Iechyd i adolygu eu gweithlu endosgopi a sicrhau bod capasiti digonol wedi'i gynllunio, gyda chysylltiadau penodol â'u IMTP.** | Mapio proffiliau staffio lleol. | Cwblhawyd | Datblygu a chyflwyno rhaglen uwchsgilio therapiwtig er mwyn achredu Colonosgopyddion Sgrinio ychwanegol. | Gwaith cynllunio ar waith Effaith Covid ar y dyddiad cau - i'w sefydlu | Cynllun gweithlu cenedlaethol wedi'i weithredu ar gyfer endosgopi. | Yn parhau – dim newid i'r dyddiad cau |
| | Sefydlu anghenion staffio yn y dyfodol ar sail y galw. | Yn parhau | Sefydlu proffil staffio uned safonol. | Yn parhau – dim newid i'r dyddiad cau | Camau gweithredu'r gweithlu lleol wedi'u gweithredu fel rhan o gynllun endosgopi lleol. | Yn parhau – dim newid i'r dyddiad cau |
| | Cwmpasu'r gofyniad i hyfforddi pob grŵp o staff. | Cwblhawyd | Sefydlu'r seilwaith hyfforddi i ddarparu elfennau hyfforddiant canolog y Rhaglen Hyfforddi Endosgopi | Yn parhau – dim newid i'r dyddiad cau | Recriwtio a hyfforddi staff ychwanegol i gynnal capasiti. | Yn parhau – dim newid i'r dyddiad cau |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Genedlaethol. | | | |
| | Cyhoeddi cynllun ar gyfer datblygu Rhaglen Hyfforddi Endosgopi Genedlaethol i gefnogi'r gweithlu endosgopi. | Yn parhau | Sefydlu'r gyfadran hyfforddi i gefnogi darpariaeth y Rhaglen Hyfforddi Endosgopi Genedlaethol. | Yn parhau – dim newid i'r dyddiad cau | Adolygu disgrifiadau swyddi a chynyddu darpariaeth endosgopi ymhlith mabwysiadwyr hwyr. | Yn parhau – dim newid i'r dyddiad cau |
| | Dechrau datblygu rhaglen hyfforddi genedlaethol gydgysylltiedig ar gyfer yr endosgopyddion clinigol. | Cwblhawyd | Datblygu rhaglen hyfforddi endosgopi gynaliadwy ar gyfer pob grŵp o staff. | Yn parhau – dim newid i'r dyddiad cau | Os oes angen, cwblhau hyfforddiant a phenodi dwy garfan ychwanegol o endosgopyddion clinigol. | Yn parhau – dim newid i'r dyddiad cau |
| | Cwmpasu rhaglen hyfforddi genedlaethol i uwchsgilio endosgopyddion presennol i ymgymryd â sgrinio. | Yn parhau | Datblygu a dechrau gweithredu cynllun gweithlu cenedlaethol ar gyfer endosgopi.<br>Datblygu a chyhoeddi canllawiau ar gynllunio swyddi ar gyfer staff meddygol. | Yn parhau – dim newid i'r dyddiad cau | Gweithredu rhaglen hyfforddiant sgrinio i garfannau pellach yn unol â chynlluniau galw a chapasiti. | Yn parhau – dim newid i'r dyddiad cau |
| | Dechrau recriwtio i Raglen Hyfforddi Endosgopyddion Clinigol Genedlaethol. | Cwblhawyd | Datblygu a dechrau gweithredu camau gweithredu gweithlu lleol i recriwtio, hyfforddi a chadw staff, fel rhan o'r cynllun endosgopi lleol. | Yn parhau – dim newid i'r dyddiad cau | Sefydlu cyllid a chefnogi a chynnal y Rhaglen Hyfforddi Endosgopi Genedlaethol. | Yn parhau – dim newid i'r dyddiad cau |
| | | | Recriwtio a hyfforddi staff ychwanegol i sefydlogi capasiti. | Yn parhau – dim newid i'r dyddiad cau | | |
| | | | Adolygu disgrifiadau swyddi a chynyddu darpariaeth endosgopi ymhlith mabwysiadwyr cynnar. | Yn parhau – dim newid i'r dyddiad cau | | |
| | | | Cwblhau hyfforddiant a phenodi dwy garfan o | Yn parhau - effaith Covid ar y dyddiad | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | endosgopyddion clinigol. | cau i'w chadarnhau | | |
| | | | Adolygu sut i fynd i'r afael â gwahaniaethau mewn cyflog ar gyfer endosgopyddion clinigol. | Yn parhau – dim newid i'r dyddiad cau | | |
| | | | Gweithredu rhaglen hyfforddi sgrinio yn lleol i'r garfan gychwynnol er mwyn achredu colonosgopyddion sgrinio ychwanegol. | Yn parhau - effaith Covid ar y dyddiad cau i'w chadarnhau | | |
| | | | Datblygu llwybr addysg ar gyfer staff nyrsio, gweinyddol a rheoli sy'n gweithio yn y gwasanaethau endosgopi yng Nghymru. | Yn parhau – dim newid i'r dyddiad cau | | |
| **Adfer ar ôl Covid** | Datblygu proffil staffio ar gyfer unedau newydd.<br>Datblygu cynllun gweithredu graddol ar gyfer recriwtio a hyfforddi staff.<br>Datblygu ymgyrch recriwtio.<br>Datblygu cronfa arbenigol.<br>Sefydlu contractau cylchdro fel bod staff yn gallu gweithio rhwng unedau newydd ac unedau sy'n bodoli eisoes.<br>Sefydlu rhaglenni hyfforddiant cyflym ar gyfer nyrsys a gweithwyr cymorth. | | Cysylltu â Byrddau Iechyd i sefydlu strwythur staffio.<br>Gweithredu ymgyrch recriwtio barhaus.<br>Gweithredu rhaglen hyfforddi barhaus. | | Sicrhau gweithlu cadarn a chymwys. | |
| **Ffrwd waith 4: Seilwaith a chyfleusterau** | | | | | | |
| **Byrddau Iechyd i barhau i weithio tuag at gyflawni achrediad JAG** | Comisiynu ymweliadau cyn-asesu JAG. | Cwblhawyd | Cytuno a darparu buddsoddiad cyfalaf cenedlaethol a lleol mewn unedau. | Yn parhau – dim newid i'r dyddiad cau | Cytuno a darparu buddsoddiad cyfalaf cenedlaethol a lleol mewn unedau. | Yn parhau – dim newid i'r dyddiad cau |
| | Cynnal gweithdai achredu a chynhyrchiant. | Cwblhawyd | Comisiynu Asesiadau JAG. | Yn parhau - dyddiad cau wedi'i ohirio tan fis Mawrth 2022 | Comisiynu Asesiadau JAG | Yn parhau – dim newid i'r dyddiad cau |
| | Coladu adroddiad cyn-asesu - canfyddiadau i | Cwblhawyd | Cyflwyno pecynnau gwybodeg gyffredin i | Yn parhau - dyddiad cau wedi'i ohirio tan | Cyflwyno pecynnau gwybodeg gyffredin | Yn parhau – dim newid i'r dyddiad |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | hysbysu'r rhaglen gyfalaf genedlaethol. | | fabwysiadwyr cynnar ar gyfer atgyfeirio, cofnodi canlyniadau cleifion ar Borth Clinigol Cymru a lanlwytho data i'r Gronfa Ddata Endosgopi Genedlaethol. | fis Mawrth 2022 | i fabwysiadwyr hwyr ar gyfer atgyfeirio, cofnodi canlyniadau cleifion ar Borth Clinigol Cymru a lanlwytho data i'r Gronfa Ddata Endosgopi Genedlaethol. | cau |
| | Nodi safleoedd cynnar ar gyfer achredu ac unedau â thrafferthion amgylcheddol sylweddol ynghyd â chamau unioni angenrheidiol i gyflawni achrediad. | Cwblhawyd | Cwblhau'r broses achredu ar gyfer yr unedau hynny sy'n barod. | Yn parhau - gohiriwyd - dyddiad cau i'w gadarnhau | Cwblhau'r broses achredu ar gyfer yr unedau hynny sy'n barod. | Yn parhau – dim newid i'r dyddiad cau |
| | Asesu rhwystrau posibl i gynnal achrediad mewn unedau sydd wedi'u hachredu ar hyn o bryd. | Cwblhawyd | Cymryd camau unioni ar gyfer unedau na chyflawnodd achrediad. | Yn parhau - gohiriwyd - dyddiad cau i'w gadarnhau | Cymryd camau unioni ar gyfer unedau na chyflawnodd achrediad. | Yn parhau – dim newid i'r dyddiad cau |
| | Comisiynu cynlluniau achredu; yn gysylltiedig ag IMTPs. | Cwblhawyd | | | | |
| | Nodi heriau ac atebion gwybodeg. | Cwblhawyd | | | | |
| | Mapio'r ystâd ffisegol bresennol. | Cwblhawyd | | | | |
| | Asesu seilwaith cyfredol gwybodeg a chwmpasu gwelliannau posibl. | Cwblhawyd | | | | |
| **Adfer ar ôl Covid** | Ystyried opsiynau ar gyfer optimeiddio'r ystâd bresennol.<br>Datblygu meini prawf lleoli ar gyfer unedau newydd. | | Sicrhau cynlluniau sy'n cydymffurfio â JAG ar gyfer unedau newydd.<br>Sicrhau bod offer priodol yn cael ei gynllunio.<br>Sicrhau seilwaith TG priodol ar gyfer unedau | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Datblygu manyleb gyfer unedau newydd. | newydd a phresennol. | |